Rhaglen Gyflawn

Gwasanaeth Democrataidd
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD

Dyddiad ac Amser

2.00 y.h., DYDD MERCHER, 28AIN MEHEFIN, 2017

***BYDD CYFARFOD O'R PANEL CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD YN DILYN Y PWYLLGOR**

Lleoliad

Siambr Cyngor Sir Ynys Mon, Llangefni

Pwynt Cyswllt

Nia Haf Davies

01286 679890

niahafdavies@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Mawrth, 20 Mehefin 2017)

PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD

AELODAETH

GWYNEDD

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes
Berwyn Parry Jones
John Pughe Roberts
Owain Williams

Sian Wyn Hughes
Dafydd Meurig
Catrin Elen Wager

YNYS MÔN

Y Cynghorwyr

Richard Dew
Kenneth P Hughes
Bryan Owen
Robin Williams

John Griffith
Richard O Jones
Nicola Roberts

Eilyddion

Gwynedd

Cynghorydd Elwyn Edwards

Ynys Môn

I'w gadarnhau

RHAGLEN

1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd am 2017/18

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd am 2017/18

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

6. COFNODION 4 - 5

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 24.6.16 fel rhai cywir .

7. CYFRIFON TERFYNOL A DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL AR GYFER PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD 6 - 18

I ystyried adroddiad yr Uwch Reolwr Cyllid

8. CYLCH GORCHWYL PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD 19 - 20

I ystyried adroddiad y Rheolwr Cynllunio (Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd - Gwynedd a Môn)

CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD

Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd

2:00 yh, 24 Mehefin 2016

Siambr Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni

Presennol:

Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng. Richard Dew
Cyng. John Griffith
Cyng. John Arwel Roberts

Cyngor Gwynedd
Cyng. Gwen Griffith
Cyng. Dafydd Meurig
Cyng. Dyfrig Jones

Swyddogion:

Rhun ap Gareth	Uwch Gyfreithiwr (CG)
Nia Haf Davies	Rheolwr - UPCC
Gareth Jones	Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio, Amgylchedd a Gwarchod y Cyhoedd (CG)
Dylan Williams	Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (CSYM)
WE Jones	Uwch Reolwr Cyllid (CG)
Eirian Harris	Cynorthwy-ydd Cynllunio Cefnogol - UPCC

Ymddiheuriadau:

Cyng. John Brynmor Hughes (CG)
Cyng. Michael Sol Owen (CG) - Eilydd
Cyng. John Pughe Roberts (CG)

1. ETHOL CADEIRYDD AM 2016 - 1017

Cafodd Cyng Dafydd Meurig ei ethol fel Cadeirydd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd a Phanel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd am y cyfnod 2016 – 2017.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD AM 2016 -2017

Cafodd Cyng Richard Dew ei ethol fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd a Phanel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd am y cyfnod 2016 – 2017

3. **YMDDIHEURIADAU**

Fel a nodwyd.

4. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad buddiant personol.

5. **MATERION BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

Cafodd Dylan Williams ei gyflwyno fel Pennaeth Adran newydd Rheoleiddio a Datblygu Economaidd yn dilyn ymddeoliad Jim Woodcock. Fe wnaeth o roi amlinelliad o rai o'r materion a phrosiectau fydd angen sylw yn ystod y misoedd nesaf, sydd yn cynnwys rhoi Cyngor Sir Ynys Mon mewn lle da i allu manteisio ar y cyfleon trawsnewidiol. Bydd mabwysiadu'r Cynllun yn gam pwysig yn ogystal a adolygu'r Canllawiau Cynllunio Atodol am Wylfa newydd.

6. **COFNODION**

Derbyniwyd Cofnodion Pwyllgor 29 Ionawr 2016 fel y rhai cywir ac fe wnaeth y Cadeirydd eu harwyddo.

7. **DATGANIAD LLWYDODRAETHU BLYNYDDOL AR GYFER PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD**

Cyflwynwyd adroddiad gan Gareth Jones a oedd yn cynnwys y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd. Mae'n ofyniad statudol bod datganiadau o'r math yma'n cael eu paratoi. Eglurwyd bod gofynion y Rheoliadau wedi newid ers y llynedd. Golyga hyn na fydd angen cyflwyno'r Datganiad i'r Pwyllgor eto yn ystod 2016 – 17, oni bai bod Swyddfa Archwilio Cymru yn argymell newidiadau iddo. Cafodd y Datganiad ei arwyddo gan y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd.

8. **CYFRIFON TERFYNOL PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD (AR GYFER Y FLWYDDYN DDAETH I BEN 31/3/16)**

Cyflwynwyd adroddiad gan W E Jones oedd yn ymateb i ofyniad statudol o dan Adran 12 o Ddeddf Archwilio Gyhoeddus (Cymru) 2004 i adrodd yn benodol am gyfrifo ac archwilio cyfrifon Pwyllgorau ar y Cyd.

Eglurwyd fod angen cwblhau ffurflenni swyddogol ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru a byddai'r ffurflenni'n destun archwiliad ar wahân.

Cyflwynwyd copi o'r ffurflenni yn Atodiad A & B. Bydd yr Archwilydd Penodedig, sef Deloitte, (archwilwyr allanol a benodwyd gan Gyngor Gwynedd) yn archwilio'r wybodaeth. Esboniwyd i'r Pwyllgor nad oes angen ail-gyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ym mis Medi 2016 (cyn iddo gael ei ardystio gan yr Archwiliwr) oherwydd newid yn y drefn, oni bai bydd angen tynnu sylw'r Pwyllgor at newidiadau argymhellir gan yr Archwilydd Penodedig.

Ni chafwyd ymholiadau ynglŷn a'r Cyfrifon ac fe gafodd y dogfennau perthnasol eu harwyddo gan y Cadeirydd ar ran Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd.

CYFARFOD	**Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd)**
DYDDIAD	**28 Mehefin 2017**
TEITL	**Cyfrifon Terfynol y Cyd-Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017**
PWRPAS	**Cyflwyno –** • **Adroddiad Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2016/17, a** • **Ffurflen Swyddogol Flynyddol o'r Cyfrifon, wedi'i ardystio, ond cyn Archwiliad**
GWEITHREDIAD	**Derbyn a chymeradwyo'r cyfrifon**
AWDUR	**Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid, Cyngor Gwynedd**

---

1. GOFYNION ADRODD ARIANNOL STATUDOL

1.1 Fel adroddwyd mewn blynyddoedd a fu, mae gofynion adrodd penodol ar gyfer cyfrifo ac archwilio cyfrifon Cyd-Bwyllgorau.

1.2 Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cyd-Bwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 o'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o'r fath yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

1.3 Er nad yw'n endid cyfreithiol annibynnol, at ddibenion cadw cyfrifon a derbyn archwiliad, mae'r Cyd-Bwyllgor ei hun yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau â chynghorau lleol eraill.

1.4 Cyngor Gwynedd yw'r Cyngor 'arweiniol' sy'n gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ar gyllid y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn).

1.5 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn mynnu bod pob Cyd-Bwyllgor yn paratoi cyfrifon blynyddol. Ble mae'r trosiant yn llai na £2.5m, ystyrir y cyd-bwyllgor yn "gyd-bwyllgor llai o faint" a rhaid paratoi'r cyfrifon ar ffurf ffurflen flynyddol gan ddilyn arferion priodol yn unol â'r ddeddfwriaeth.

1.6 Bydd y Ffurflen Flynyddol o'r Cyfrifon yn destun archwiliad ar wahân gan archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd.

2. CYFRIFON 2016/17

2.1 **Cyflwynir y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2016/17 yma fel Atodiad A** ar ffurf adroddiad "alldro" syml.

2.2 **Yn Atodiad B, cyflwynir y Ffurflen Swyddogol Flynyddol am 2016/17 (cyn archwiliad), wedi'i gwblhau a'i ardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol**, sef Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd (Dafydd L Edwards) fel y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer y Cyd-Bwyllgor.

2.3 Bydd y cyfrifon a'r ffurflen yn destun archwiliad buan gan Deloitte, archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd a apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Os bydd angen newidiadau yna cyflwynir fersiwn diwygiedig i'r Cyd-Bwyllgor ar 22 Medi 2017.

2.4 Ar ôl archwiliad ac yn dilyn unrhyw addasiadau fydd angen, bydd cynrychiolydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ardystio'r ffurflen cyn 30 Medi.

3. ARGYMHELLIAD

3.1 **Gofynnir i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd dderbyn a chymeradwyo'r wybodaeth sydd yn yr atodiadau**, sef –

- Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2016/17 – Atodiad A
- Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2017 (Amodol ar Archwiliad) – Atodiad B

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Cyrff llywodraeth leol llai o faint yng Nghymru
Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2017

Rhaid i gyrff llywodraeth leol llai o faint yng Nghymru baratoi cyfrifon blynyddol gan ddilyn arferion priodol fel y'u nodir yng nghyhoeddiad Un Llais Cymru/Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC) **Governance and accountability for local councils in Wales – A Practitioners' Guide 2006** (y Canllaw i Ymarferwyr). Mae'r Canllaw i Ymarferwyr yn nodi y gall cyrff baratoi eu cyfrifon ar ffurf ffurflen flynyddol a baratowyd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Y cyfrifon a'r broses archwilio

Mae'r cyfrifon a'r trefniadau archwilio yn dilyn y broses a nodir isod.

Bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol/Clerc yn paratoi datganiadau cyfrifyddu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol Bydd yr uned archwilio mewnol yn cwblhau adroddiad archwilio mewnol. Bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn ardystio'r ffurflen (o dan Ran 2 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol) **cyn 30 Mehefin** ac yn cyflwyno'r ffurflen i'r corff.

→

Bydd y corff yn cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol erbyn 30 Mehefin. Mae llofnod y Cadeirydd yn y blwch o dan Ran 2 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn dyst o hyn.

Bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol/Clerc yn anfon copi o'r Ffurflen Flynyddol a chopïau ardystiedig o'r dystiolaeth y gofynnwyd amdani at yr archwilydd allanol sy'n gweithredu ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

→

Bydd yr archwilydd allanol yn cwblhau'r archwiliad a:

Naill ai:

Os nad oes angen gwneud unrhyw ddiwygiadau, yn ardystio'r Ffurflen Flynyddol ac yn ei dychwelyd at y corff i'w chyhoeddi erbyn 30 Medi.

Neu:

Os oes angen gwneud diwygiadau, yn rhoi gwybod i'r corff am broblemau (gan gynnwys diwygiadau). Bydd y corff yn diwygio'r Ffurflen Flynyddol, bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn ei hailardystio a bydd y corff yn ei hailgymeradwyo cyn ei dychwelyd at yr archwilydd. Yna bydd yr archwilydd yn ardystio'r Ffurflen Flynyddol ac yn ei dychwelyd at y corff i'w chyhoeddi erbyn 30 Medi.

Darllenwch y canllawiau ar gwblhau'r Ffurflen Flynyddol hon a chwblhewch bob adran mewn coch gan gynnwys drwy adran y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Mae'n bosibl y bydd ffurflenni anghyflawn neu anghywir yn gofyn am waith archwilio allanol ychwanegol ac yn arwain at gostau ychwanegol. Anfonwch y Ffurflen Flynyddol **wreiddiol**, ynghyd â'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani, at yr archwilydd allanol sy'n gweithredu ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. Oni ofynnir i chi wneud hynny, **peidiwch** ag anfon unrhyw gofnodion ariannol gwreiddiol na chofnodion eraill at yr archwilydd allanol.

Caiff ffurflenni a archwiliwyd ac a ardystiwyd eu dychwelyd at y corff at ddibenion cyhoeddi neu arddangos y datganiadau cyfrifyddu, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a thystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Rhestr wirio cwblhau

Bydd ateb 'Naddo' yn golygu nad ydych o bosibl wedi bodloni'r gofynion		Gweithredwyd?	
Cyflwyniad cyntaf i'r archwilydd allanol		Do	Naddo
Cyfrifon	A yw'r Swyddog Ariannol Cyfrifol wedi ardystio'r datganiadau cyfrifyddu ac a yw'r corff wedi cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol (fel y dangoswyd gan y llofnodion perthnasol), erbyn 30 Mehefin 2017 fan bellaf?	◉	○
	A yw'r cyfrifon yn adio'n gywir ac a yw'r balans a gaiff ei gario ymlaen o'r llynedd yn cyfateb i'r balans agoriadol eleni?	◉	○
	A yw'r papurau i'w hanfon at yr archwilydd allanol yn cynnwys esboniad o amrywiadau sylweddol, gan gynnwys dadansoddiad wedi ei fesur o'r newidiadau rhwng y llynedd ac eleni?	◉	○

	A yw'r cysoniad banc ar 31 Mawrth 2017 yn gyson â llinell 9?	◉	○
Pob adran	A yw'r holl flychau coch wedi'u cwblhau ac a oes esboniadau wedi'u rhoi lle bo angen?	◉	○
Tystiolaeth ategol	A yw'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani gan yr archwilydd allanol wedi'i hanfon gyda'r Ffurflen Flynyddol hon? Dylech gyfeirio at yr hysbysiad o'r archwiliad ac unrhyw amserlenni ychwanegol a ddarparwyd gan eich archwilydd allanol.	◉	○

Datganiadau cyfrifyddu 2016-17 ar gyfer:

Enw'r corff: Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn)

	Y flwyddyn a ddaeth i ben		Nodiadau a chanllawiau i'r sawl sy'n llunio'r cyfrifon
	31 Mawrth 2016 (£)	31 Mawrth 2017 (£)	Dylech dalgrynnu'r ffigurau i'r £ agosaf. Ni ddylech adael unrhyw flychau yn wag na chofnodi balansau o £0 neu ddim. Rhaid i bob ffigur fod yn gyson â'r cofnodion ariannol sylfaenol ar gyfer y flwyddyn berthnasol.
Datganiad o incwm a gwariant/derbyniadau a thaliadau			
1. Balansau a ddygwyd ymlaen	195,140	127,000	Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddechrau'r flwyddyn fel y'u cofnodwyd yn y cofnodion ariannol. Rhaid iddo fod yn gyson â Llinell 7 y flwyddyn flaenorol.
2. (+) Incwm o drethiant lleol/ardoll	542,127	1,169,951	Cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd/derbyniadwy yn ystod y flwyddyn o drethiant lleol (praesept) neu ardoll/cyfraniad gan brif gyrff.
3. (+) Cyfanswm derbyniadau eraill	0	0	Cyfanswm incwm neu dderbyniadau a gofnodwyd yn y llyfr arian parod llai'r symiau a gynhwysir yn llinell 2. Mae'n cynnwys grantiau cymorth, dewisol a refeniw.
4. (-) Costau staff	-436,704	-495,447	Cyfanswm gwariant neu daliadau a wnaed i bob gweithiwr cyflogedig ac ar ei ran. Dylech gynnwys cyflogau, TWE ac Yswiriant Gwladol (cyflogeion a chyflogwyr), cyfraniadau pensiwn a threuliau cysylltiedig e.e. costau terfynu.
5. (-) Llog ar fenthyciadau/ ad-daliadau cyfalaf	0	0	Cyfanswm gwariant neu daliadau cyfalaf a llog a wnaed yn ystod y flwyddyn ar fenthyciadau allanol (os o gwbl).
6. (-) Cyfanswm taliadau eraill	-173,563	-471,988	Cyfanswm gwariant neu daliadau fel y'u cofnodwyd yn y llyfr arian parod llai costau staff (Llinell 4) a llog ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf (Llinell 5).
7. (=) Balansau a gariwyd ymlaen	127,000	329,516	Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn. Rhaid iddo fod yn hafal i (1+2+3) - (4+5+6).
Datganiad o falansau			
8. (+) Dyledwyr a balansau stoc	7,709	41,918	**Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:** Nodwch werth dyledion sy'n ddyledus i'r corff a balansau stoc a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn.
9. (+) Cyfanswm arian parod a buddsoddiadau	121,077	331,608	**Pob cyfrif:** Swm yr holl gyfrifon banc cyfredol a chadw, daliadau ariannol a buddsoddiadau a ddelir ar 31 Mawrth. Rhaid i hyn fod yn gyson â balans cysoni'r llyfr arian parod yn unol â chysoniad y banc.
10. (-) Credydwyr	-1,786	-44,010	**Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:** Nodwch werth yr arian sy'n ddyledus gan y corff (heblaw costau benthyg) ar ddiwedd y flwyddyn.
11. (=) Balansau a gariwyd ymlaen	127,000	329,516	**Dylai cyfanswm y balansau fod yn gyson â llinell 7 uchod:** Nodwch gyfanswm (8+9-10).
12. Cyfanswm asedau sefydlog ac asedau hirdymor	0	0	Gwerth **gwreiddiol** cofrestr asedau a buddsoddiadau pob ased sefydlog, ynghyd ag asedau hirdymor eraill a ddelir ar 31 Mawrth.
13. Cyfanswm benthyciadau	0	0	Balans cyfalaf dyledus pob benthyciad o drydydd partïon ar 31 Mawrth (gan gynnwys PWLB).

	Ydy	Nac ydy	Dd/G	Ydy	Nac ydy	Dd/G	
14. Nodyn datgelu cronfeydd ymddiriedolaeth	○	○	●	○	○	●	Mae'r corff yn gweithredu fel unig ymddiriedolwr ac mae'n gyfrifol am reoli (a) cronfa/cronfeydd ymddiriedolaeth/ asedau (dylai darllenwyr nodi nad yw'r ffigurau uchod yn cynnwys unrhyw drafodion ymddiriedolaeth).

Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 1)

Rydym yn cydnabod, fel aelodau o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn), ein cyfrifoldeb am sicrhau bod system rheolaeth fewnol gadarn ar waith, gan gynnwys paratoi'r datganiadau cyfrifyddu. Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, o ran y datganiadau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017, ein bod wedi gwneud y canlynol:

	Cytunwyd?		Mae 'DO' yn golygu bod y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor wedi gwneud y canlynol:	Cyf y Dangosydd Perfformiad
	Do	Naddo*		
1. Rydym wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer: • gwaith rheoli ariannol effeithiol yn ystod y flwyddyn; a • pharatoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu.	◉	○	Pennu ei gyllideb a rheoli ei arian yn briodol a pharatoi a chymeradwyo ei ddatganiadau cyfrifyddu fel y rhagnodir gan y gyfraith.	6, 12
2. Cynnal system rheolaeth fewnol ddigonol, gan gynnwys mesurau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll a llygredd, ac adolygu ei heffeithiolrwydd.	◉	○	Gwneud trefniadau priodol a derbyn cyfrifoldeb am warchod yr arian cyhoeddus a'r adnoddau dan ei reolaeth.	6, 7
3. Rydym wedi cymryd yr holl gamau rhesymol i roi sicrwydd i ni'n hunain nad oes unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol na phosibl â chyfreithiau, rheoliadau na chodau ymarfer a allai gael effaith ariannol sylweddol ar allu'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn) i gynnal ei fusnes nac ar ei sefyllfa ariannol.	◉	○	Ond wedi gwneud pethau y mae ganddo'r pŵer cyfreithiol i'w gwneud ac wedi cydymffurfio â chodau ymarfer a safonau wrth wneud hynny.	6
4. Rydym wedi darparu cyfle priodol i etholwyr arfer eu hawliau yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.	◉	○	Rhoi'r cyfle i bob unigolyn â diddordeb archwilio a gofyn cwestiynau am gyfrifon y corff.	6, 23
5. Rydym wedi cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn) ac wedi cymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny, gan gynnwys cyflwyno rheolaethau mewnol a/neu yswiriant allanol lle y bo angen.	◉	○	Ystyried y risgiau ariannol a'r risgiau eraill a wynebir ganddo wrth weithredu'r corff a delio â hwy'n briodol.	6, 9
6. Rydym wedi cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol ar gyfer y cofnodion cyfrifyddu a'r systemau rheoli drwy gydol y flwyddyn ac wedi cael adroddiad gan yr archwilydd mewnol.	◉	○	Trefnu i unigolyn cymwys, yn annibynnol ar y rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol, roi barn wrthrychol ar ba un a yw'r rhain yn diwallu anghenion y corff.	6, 8
7. Rydym wedi ystyried a oes unrhyw ymgyfreitha, rhwymedigaethau neu ymrwymiadau, digwyddiadau neu drafodion, a ddigwyddodd naill ai yn ystod y flwyddyn neu ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, wedi cael effaith ariannol ar y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn) a, lle y bo'n briodol, wedi eu cynnwys yn y datganiadau cyfrifyddu.	◉	○	Datgelu popeth y dylai fod wedi ei ddatgelu am ei fusnes yn ystod y flwyddyn gan gynnwys digwyddiadau a ddigwyddodd ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben os ydynt yn berthnasol.	6
8. Rydym wedi cymryd camau priodol i fynd i'r afael â phob mater a godwyd mewn adroddiadau blaenorol gan archwilwyr mewnol ac allanol.	◉	○	Ystyried a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â phroblemau/ gwendidau a ddygwyd i'w sylw gan archwilwyr mewnol ac allanol.	6, 8, 23

	Do	Naddo	Dd/G		
9. Cronfeydd ymddiriedolaeth – yn rhinwedd ein swydd fel ymddiriedolwr, rydym wedi: • cyflawni ein cyfrifoldeb mewn perthynas ag atebolrwydd am y gronfa/cronfeydd gan gynnwys cyflwyno adroddiadau ariannol a, lle y bo angen, cynnal archwiliadau annibynnol.	○	○	◉	Cyflawni ei gyfrifoldebau yn rhinwedd ei swydd fel unig reolwr-ymddiriedolwr ymddiriedolaeth neu ymddiriedolaethau lleol.	3, 6

* Ar ddalen ar wahân, rhowch esboniadau i'r archwilydd allanol ar gyfer pob ymateb 'naddo' a roddwyd; a disgrifiwch pa gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 2)

	Cytunwyd?		Mae 'DO' yn golygu bod y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor wedi gwneud y canlynol:	Cyf y Dangosydd Perfformiad
	Do	Naddo*		
1. Rydym wedi cofrestru fel cyflogwr â Chyllid a Thollau EM (CThEM) ac rydym yn gweithredu Talu Wrth Ennill (TWE) yn briodol fel rhan o'n trefniadau cyflogres; neu Nid oes angen i ni gofrestru ar gyfer TWE oherwydd nid oes unrhyw un o'n cyflogeion yn cael eu talu £112 neu fwy yr wythnos, yn cael treuliau a buddiannau, yn dal swydd arall nac yn cael pensiwn.	◉	○	Wedi cofrestru fel cyflogwr ac yn gweithredu TWE yn briodol oni bai bod **pob un** o'r meini prawf eithrio wedi cael eu bodloni.	13
2. Rydym wedi cynnal cofnodion cyflogres priodol ar gyfer pob un o'n cyflogeion gan gynnwys didyniadau treth ac yswiriant gwladol.	◉	○	Cadw cofnodion o daliadau a wnaed i gyflogeion gan gynnwys buddiannau neu dreuliau trethadwy a thaliadau a wnaed i CThEM.	13
3. Rydym wedi mabwysiadu Cod Ymddygiad sy'n nodi'r safonau ymddygiad priodol a ddisgwylir gan gynghorwyr ac mae pob un ohonom wedi cytuno i gydymffurfio â'r cod.	◉	○	Mae'r corff a'i aelodau wedi mabwysiadu Cod Ymddygiad ac wedi cytuno i gydymffurfio ag ef fel sy'n ofynnol o dan y gyfraith.	8

* Dileer fel y bo'n briodol.

Cymeradwyaeth ac ardystiad y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn)

Y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn) sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 ac am baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Ardystiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol	**Cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn)**
Ardystiaf fod y datganiadau cyfrifyddu yn y Ffurflen Flynyddol hon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn), a'i incwm a'i wariant, neu'n cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, yn ôl y digwydd, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017.	Cadarnhaf fod y datganiadau cyfrifyddu hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael eu cymeradwyo gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor o dan gyfeirnod cofnod:
Llofnod y Swyddog Ariannol Cyfrifol: Dafydd L Edwards Swyddog Cyllid Statudol Cyngor Gwynedd	**Llofnod y Cadeirydd:**
Enw:	**Enw:**
Dyddiad: 15/06/17	**Dyddiad:**

Ailgymeradwyaeth ac ailardystiad gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn) (dim ond os bydd y ffurflen flynyddol wedi ei diwygio yn yr archwiliad)

Ardystiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol	**Cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn)**
Ardystiaf fod y datganiadau cyfrifyddu yn y Ffurflen Flynyddol hon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn), a'i incwm a'i wariant, neu'n cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, yn ôl y digwydd, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017.	Cadarnhaf fod y datganiadau cyfrifyddu hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael eu cymeradwyo gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor o dan gyfeirnod cofnod:
Llofnod y Swyddog Ariannol Cyfrifol:	**Llofnod y Cadeirydd:**
Enw:	**Enw:**
Dyddiad:	**Dyddiad:**

Tystysgrif Archwilio ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r archwilydd allanol yn cynnal yr archwiliad ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd ganddo. Ar sail ei adolygiad o'r Ffurflen Flynyddol a'r wybodaeth ategol, mae'n nodi pa un a fydd unrhyw fater a ddaw i'w sylw yn peri pryder nad yw'r ddeddfwriaeth a'r gofynion rheoleiddio perthnasol wedi'u bodloni.

Ardystiwn ein bod wedi cwblhau'r archwiliad o'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 ar gyfer:

Adroddiad yr archwilydd allanol

[Ac eithrio'r materion a nodir isod]* Ar sail ein hadolygiad, yn ein barn ni, mae'r wybodaeth yn y Ffurflen Flynyddol yn cydymffurfio ag arferion priodol ac nid oes unrhyw faterion wedi dod i'n sylw sy'n peri pryder nad yw'r ddeddfwriaeth a'r gofynion rheoleiddio perthnasol wedi'u bodloni.

[[Mae'r materion hyn yn ogystal â]* Materion eraill nad ydynt yn effeithio ar ein barn yr ydym yn eu dwyn i sylw'r corff a'n hargymhellion ar gyfer gwella wedi'u cynnwys yn ein hadroddiad i'r corff dyddiedig _____.]

Materion eraill ac argymhellion

Ar sail ein hadolygiad, tynnwn sylw'r corff at y materion a'r argymhellion canlynol nad ydynt yn effeithio ar ein barn archwilio ond y dylai'r corff ymdrin â hwy.

(Parhewch ar daflen ar wahân os oes angen.)

Enw'r archwilydd allanol:	
Llofnod yr archwilydd allanol: **Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**	**Dyddiad:**

* Dileer fel y bo'n briodol.

Adroddiad archwilio mewnol Blynyddol ar gyfer:

Enw'r corff: Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn)

Mae archwiliad mewnol y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn), gan weithredu'n annibynnol ac ar sail asesiad o risg, wedi cynnwys cynnal asesiad dewisol o gydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau a'r rheolaethau perthnasol y disgwylir iddynt fod ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth 2017.

Cynhaliwyd yr archwiliad mewnol yn unol ag anghenion y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn) a'r gwaith a drefnwyd. Ar sail y canfyddiadau yn y meysydd a archwiliwyd, ceir crynodeb o gasgliadau'r archwiliad mewnol yn y tabl hwn. Nodir isod amcanion rheolaeth fewnol a chasgliadau'r archwiliad mewnol ar ba un a oedd yr amcanion canlynol o ran rheolaeth, ym mhob ffordd bwysig, yn cael eu bodloni drwy gydol y flwyddyn ariannol i safon sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn).

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Naddo*	Dd/G	Heb ei gynnwys**	
1. Mae'r llyfrau cyfrifon priodol wedi'u cadw'n briodol drwy gydol y flwyddyn.	○	○	○	○	Mewnosodwch destun
2. Bodlonwyd rheoliadau ariannol, cefnogwyd taliadau gan anfonebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	○	○	○	○	Mewnosodwch destun
3. Asesodd y corff y risgiau sylweddol i gyflawni ei amcanion ac adolygodd ddigonolrwydd y trefniadau ar gyfer eu rheoli.	○	○	○	○	Mewnosodwch destun
4. Deilliodd y gofyniad blynyddol am braesept/ardoll/adnoddau o broses gyllidebu ddigonol, cafodd cynnydd yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n rheolaidd, ac roedd y cronfeydd wrth gefn yn briodol.	○	○	○	○	Mewnosodwch destun
5. Cafodd yr incwm disgwyliedig ei dderbyn yn llawn, ar sail prisiau cywir, ei gofnodi'n briodol a'i fancio'n syth, a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	○	○	○	○	Mewnosodwch destun
6. Cefnogwyd taliadau arian mân yn briodol gan dderbynebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	○	○	○	○	Mewnosodwch destun
7. Talwyd cyflogau i gyflogeion a lwfansau i aelodau yn unol â chymeradwyaethau a gofnodwyd, a chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol.	○	○	○	○	Mewnosodwch destun
8. Roedd y cofrestrau asedau a buddsoddiadau yn gyflawn, yn gywir, ac yn cael eu cynnal yn briodol.	○	○	○	○	Mewnosodwch destun

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Naddo*	Dd/G	Heb ei gynnwys**	
9. Cafodd cysoniadau cyfrifon banc cyfnodol ac ar ddiwedd y flwyddyn eu cynnal yn briodol.	◉	○	○	○	Mewnosodwch destun
10. Cafodd datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn ystod y flwyddyn eu paratoi ar y sail cyfrifyddu gywir (derbyniadau a thaliadau/incwm a gwariant), roeddent yn gyson â'r llyfr arian parod, wedi'u cefnogi gan drywydd archwilio digonol o gofnodion sylfaenol, a, lle y bo'n briodol, cafodd dyledwyr a chredydwyr eu cofnodi'n briodol.	◉	○	○	○	Mewnosodwch destun
11. Cronfeydd ymddiriedolaeth (gan gynnwys ymddiriedolaethau elusennol). Mae'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn) wedi cyflawni ei gyfrifoldebau fel ymddiriedolwr.	○	○	◉	○	Mewnosodwch destun

Roedd rheolaethau digonol yn bodoli ar gyfer unrhyw feysydd risg a nodwyd gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor (rhestrwch unrhyw feysydd risg eraill isod neu ar dudalennau ar wahân os oes angen):					
	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Naddo*	Dd/G	Heb ei gynnwys**	
12. Nodwch y maes risg	○	○	○	○	Mewnosodwch destun
13. Nodwch y maes risg	○	○	○	○	Mewnosodwch destun
14. Nodwch y maes risg	○	○	○	○	Mewnosodwch destun

* Os atebwyd 'naddo', nodwch y goblygiadau a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw wendid rheoli a nodwyd (ychwanegwch dudalennau ar wahân os oes angen).

** Os atebwyd 'heb ei gynnwys', nodwch pryd y gwnaethpwyd y gwaith archwilio mewnol mwyaf diweddar yn y maes hwn a phryd y bwriedir ei wneud nesaf, neu os nad oes angen ei gynnwys, rhaid i'r archwilydd mewnol esbonio pam nad oes angen hynny.

[Mae fy nghanfyddiadau manwl a'm hargymhellion yr wyf yn eu dwyn i sylw'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn) wedi'u cynnwys yn fy adroddiad manwl i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn) dyddiedig _____.] * Dileer os nad oes adroddiad wedi'i baratoi.

Cadarnhau archwiliad mewnol

Cadarnhaf nad wyf, fel archwilydd mewnol y Cyngor, wedi ymgymryd â rôl rheoli na gweinyddol o fewn y corff nac fel aelod o'r corff yn ystod blynyddoedd ariannol 2015-16 a 2016-17. Cadarnhaf hefyd na fu unrhyw achos o wrthdaro buddiannau ynghylch fy mhenodiad.

Enw'r unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol:	Luned Fôn Jones
Llofnod yr unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol:	Luned Fôn Jones
Dyddiad: 08/06/2017	

PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD

(CYNGHORAU GWYNEDD A MÔN)

CYFRIF INCWM A GWARIANT REFENIW 2016/2017

	Cyllideb 2016/2017 £	Cyfrifon Terfynol 2016/2017 £	Gwahaniaeth Gor/(Tan)wariant £
Gwariant			
Gweithwyr			
Cyflogau	490,630	472,950	(17,680)
Costau Staffio Eraill	2,410	20,382	17,972
Yswiriant Atebolrwydd	2,240	2,115	(125)
Eiddo			
Trwsio Larymau Lladron	0	148	148
Cludiant			
Cerbydau Pwl	1,150	1,346	196
Costau Teithio	10,890	1,034	(9,856)
Cyflenwadau a Gwasanaethau			
Costau Rhedeg yr Uned	5,950	4,050	(1,900)
Costau Datblygu'r Cynllun			
Argraffiadau a Chyhoeddiadau	35,000	14,811	(20,189)
Archwiliad Cyhoeddus	497,870	338,690	(159,180)
Ffioedd Ymchwil	30,000	16,796	(13,204)
Marchnata a Chyhoeddusrwydd	7,500	0	(7,500)
Cyfieithwyr	6,000	23,389	17,389
Cyfrifiaduron a Meddalwedd	1,500	2,683	1,183
Costau Eraill	0	1,128	1,128
Cefnogaeth Ganolog			
Ad-daliadau Costau Canolog	65,790	67,913	2,123
Cyfanswm Gwariant	1,156,930	967,435	(189,495)
Incwm			
Gwerthiannau	0	(1,044)	(1,044)
Cyfraniad Cyngor Sir Ynys Môn	(578,465)	(483,195)	95,270
Cyfraniad Cyngor Gwynedd	(578,465)	(483,195)	95,270
Cyfanswm Incwm	(1,156,930)	(967,435)	189,495
Cyfanswm Gwariant Net	**0**	**0**	**0**

Balansau/Reserfau a Glustnodwyd 31/03/16:	(127,000)
Symudiad Net	(202,516)
Balansau/Reserfau a Glustnodwyd 31/03/17:	**(329,516)**

EITEM 8

CYFARFOD	**Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd**
DYDDIAD	**28 Mehefin 2017**
ENW	**Cylch Gorchwyl Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd**
PWRPAS	**I roi gwybod i'r Pwyllgor am swyddogaethau'r Pwyllgor**
ARGYMHELLIAD	**Er gwybodaeth**
AWDUR	**Rheolwr Cynllunio (Polisi) Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn**

1 Swyddogaethau'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd

1.1 Mae yna Gytundeb rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd i ddarparu a chynnal Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd. Mae'r Cytundeb yn adnabod swyddogaethau penodol ar gyfer y Pwyllgor, sydd fel a ganlyn:

(i) Cynghori ar ffurfio Cytundeb Cyflawni, Dewisiadau Strategol a Strategaeth Ddewisol Gwynedd a Môn.
(ii) Paratoi Cynllun Datblygu Lleol Adnau Gwynedd a Môn.
(iii) Paratoi ac ystyried ymatebion i ymgynghoriadau'r Cynllun Datblygu Lleol Adnau.
(iv) Cytuno ar, a pharatoi'n derfynol, adroddiad ar ymatebion i ymgynghoriadau ac (yn ôl y gofyn) newid Cynllun Datblygu Lleol Adnau Gwynedd a Môn.
(v) Cytuno a pharatoi'n derfynol Gynllun Datblygu Lleol Adnau Gwynedd a Môn
(vi) Derbyn a chytuno ar Adroddiad yr Arolygydd Cynllunio.
(vii) Bod â chyfrifoldeb am fonitro ac adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Gwynedd a Môn.
(viii) Ffurfio Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Gwynedd a Môn.
(ix) Mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Gwynedd a Môn.
(x) Bod â chyfrifoldeb am gynghori ar gadw trosolwg ar, ac adolygu, rhaglenni sy'n cael eu hariannu'n allanol nad ydynt yn dod o dan gylch gorchwyl y Pwyllgor ond sy'n bwysig i'r gwaith sy'n cael ei wneud gan neu ar ran y Pwyllgor ac i adnoddau sy'n cael eu rhannu. Bydd hyn yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) ymateb i gynlluniau Datblygu Lleol mewn Awdurdodau Cynllunio cyfagos ac ymateb i ddogfennau ymgynghori ynghylch Polisi Cynllunio Cenedlaethol a dogfennau cynghori.
(xi) Cadw trosolwg ar, a derbyn adroddiadau gan, yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd.
(xii) Penodi unrhyw banel neu weithgor er mwyn bod o gymorth i'r Pwyllgor wrth ei waith.

1.2 Mae'r testun nesaf yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am y Pwyllgor:

(i) Mae gan y Pwyllgor gyfanswm o 14 o Aelodau, gan gynnwys y Cadeirydd ac Is Gadeirydd.

(ii) Dylai'r ddau Awdurdod benodi un Aelod wrth gefn rhag ofn y bydd lle gwag yn codi neu na fydd Aelod penodedig yn gallu bod yn bresennol ond, fel arall, ni chaniateir Aelodau sy'n dirprwyo.

(iii) Bob blwyddyn, bydd y Pwyllgor yn cynnal Cyfarfod Blynyddol gyda'r cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal ar ôl i bob un o'r ddau Awdurdod gynnal eu cyfarfodydd blynyddol eu hunain.

(iv) Dyma'r dyddiadau sydd wedi cael eu hadnabod ar hyn o bryd ar gyfer cynnal cyfarfod o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd:

DYDDIAD	AMSER	LLEOLIAD
28 Mehefin 2017 (y cyfarfod blynyddol)	2:00 – 4:00	Siambr y Cyngor, Llangefni
22 Medi 2017	1:00 – 4:00	Glyder Fawr, Caernarfon
10 Tachwedd 2017	1:00 – 4:00	Ystafell Bwyllgor 1) Llangefni
26 Ionawr 2018	9:00 – 12:00	Glyder Fawr, Caernarfon
9 Mawrth 2018	9:00 – 12:00	Ystafell Bwyllgor 1) Llangefni

(v) Y cworwm ar gyfer cyfarfod o'r Pwyllgor fydd pedwar o'i Aelodau.

(vi) Bydd y Cadeirydd yn cadeirio cyfarfodydd a'r Is-gadeirydd yn gwneud hynny os bydd yn absennol. Os bydd y ddau'n absennol, bydd y Pwyllgor yn dewis Aelod arall i gadeirio.